ATODLEN 3

Erthygl 4(1)

MESURAU'R CYNULLIAD

## Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1)

**1.** Yn adran 6(1)(f) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, yn lle "Cyngor Cefn Gwlad Cymru" rhodder "Corff Adnoddau Naturiol Cymru".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 1 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

## Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (mccc 8)

**2.** Yn adrannau 8(1)(a), 11(1)(a) ac 16(1)(a) o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, yn lle "Asiantaeth yr Amgylchedd" rhodder "Corff Adnoddau Naturiol Cymru".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 3 para. 2 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

## Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1)

**3.**—(1) Yn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'r tabl wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer y cofnod sy'n ymwneud â Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

(3) Yn y man priodol, mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("*The Natural Resources Body for Wales*") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion". |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 3 para. 3 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, ATODLEN 3.